Seindorf Beaumaris Band

**Gaeaf 2019**

**Cyngerdd Nadolig Seindorf Beaumaris 2019**

**Gwener a Sadwrn, 6 & 7 Rhagfyr 2019 7.30pm**

**Tocynnau ar werth yn y Ganolfan**

**I archebu ffoniwch (01248) 811200**

## Gair gan ein Cadeirydd…

Dychwelodd Seindorf Beaumaris i fyd cystadlu ar 15 Medi.

Rydym yn hynod falch fod ein Band wedi cynrychioli ein tref, ein hynys a'n gwlad ym Mhencampwriaethau Band Pres Cenedlaethol Prydain Fawr yn Cheltenham.

Cystadlodd tua 120 o fandiau’r Bedwaredd Adran yn eu cystadleuaeth Ardal mewn ymgais i gyrraedd penwythnos y Rowndiau Terfynol. Rydyn wedi rhyfeddu at yr holl negeseuon o gefnogaeth rydym wedi’u derbyn, o bell ac agos, yn dilyn cyrraedd y pedwerydd safle.

Yn fwy na dim, rydyn ni mor falch o'n cerddorion a berfformiodd mor arbennig - yn chwarae gyda balchder, yn gweithio i'w gilydd a chwarae dros ein gilydd, gan ddangos y gwaith tîm, y penderfyniad a'r cyfeillgarwch sy’n hanfod bod yn fandiwr. Fel sefydliad mae gennym dros 120 o aelodau a phum band yn y teulu ... a dyna ydyn ni; teulu band.

Gall pob aelod unigol o'n teulu a'n cefnogwyr ymfalchïo'n fawr ym mherfformiad ein Band wrth i ni gamu i'r Drydedd Adran y flwyddyn nesaf.

Beaumaris ydyn ni ac rydan ni'n deulu.

Bydd Scott Lloyd, arweinydd y band hŷn, dwi’n siŵr, yn mynd â’r band o nerth i nerth.

Ar 22 Medi roedd y Band yn hynod falch o arwain Gorymdaith Sul y Maer unwaith eto ... er gwaethaf y tywydd!

Ac roeddem allan mewn grym ar gyfer gwasanaeth a gorymdaith Sul y Cofio ar 10 Tachwedd.

Ar 23 Medi, cymerodd Aelodau'r Band Ieuenctid ran mewn gweithdy gyda Band Of the Welsh Guards yn Ysgol David Hughes. Diolch i Scott am drefnu ac i'r Band am rannu’r profiad.

Ar 16 Tachwedd aeth pump o’n bandiau i Rali Gogledd Cymru – canlyniadau ar dros y dudalen!

Rwy’n gobeithio gweld llawer ohonoch yn y cyngherddau Nadolig ar 6 a 7 Rhagfyr.

Bydd y band yn chwarae yng ngwasanaeth Carol yr NSPCC ddydd Llun 9 Rhagfyr yn Eglwys y Santes Fair, Beaumaris.

Gyda phob dymuniad gorau

Patsy

## Diwrnod hanesyddol

Cant pedwar deg saith o chwaraewyr wedi eu harwain gan bedwar arweinydd mewn pum band ar draws chwe Adran, yn dychwelyd i'r Ynys gydag 14 o dlysau; dyna oedd hanes diwrnod hanesyddol y Seindorf yn Rali Gogledd Cymru fis Tachwedd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun. Roedd yn ddechrau cynnar i'r aelodau ieuengaf wrth i'r Band Iau a'r Canolradd gystadlu yn Adran 6B, cystadleuaeth gynta'r dydd, cyn i'r Band Ieuenctid eu dilyn i'r llwyfan yn Adran 6A.

"Mae Seindorf Beaumaris yn hynod falch o'u hadrannau iau a braf yw gweld ein cerddorion ifanc yn graddio trwy'r adran iau cyn cymryd eu sedd efo'r Band Hŷn," meddai Llywydd Seindorf Beaumaris, Fred Evans.

A band ifanc iawn ddaeth i'r llwyfan i amddiffyn eu coron yn Adran Pedwar. Roedd 16 o'r rhai oedd ar y llwyfan eisoes wedi cystadlu gyda'r Band Ieuenctid gan gynnwys y prif gornetydd, Erin Maloney, lwyddodd i gipio gwobr yr unawdydd gorau yn Adran Pedwar a'r Adran Ieuenctid.

Ond nid yr ieuenctid yn unig oedd yn serenu. Am y tro cyntaf roedd Band Cymunedol Beaumaris yn cystadlu yn Adran Pump ar gyfer bandiau sydd heb eu cofrestru. Roedd yn ddiwrnod penigamp i'r *Last of the Summer Wind* wrth ennill eu hadran.

"Gyda'r cyfartaledd oed dros 65 mae'r *Last of the Summer Wind* yn esiampl gwych o ethos cymunedol Seindorf Beaumaris," eglurodd Fred Evans. "Roedd rhai o aelodau'r band yn chwarae rhai blynyddoedd yn ôl ac wedi dychwelyd i fandio ond doedd nifer helaeth erioed wedi cyffwrdd mewn offeryn pres cyn ymddeol."

Daeth y diwrnod i ben gyda Beaumaris hefyd yn cipio'r drydedd wobr yn yr Adran Agored gan guro dau fand o adrannau uwch. Gyda dau o efeilliaid y Band Ieuenctid, Morgan a Celt sy'n chwe mlwydd oed, yn ennill Cwpan Coffa Dr Gwilym Roberts fel chwaraewyr ieuengaf y Rali, roedd yn ddiwrnod penigamp.

"Rwy'n hynod falch o'r hyn 'da ni wedi gyflawni," ychwanegodd Mr Evans. "Mae dod â phum band i gystadleuaeth y Gymdeithas yn destament i waith caled ac ymroddiad yr arweinyddion, y tiwtoriaid a'r gwirfoddolwyr. Mae dod a chymaint o dlysau yn ôl i'r ynys yn goron ar y cwbwl."

…………………………………………………………………….

***Y criw fu'n cystadlu yn Cheltenham***



***Roedd hi'n anrhydedd arwain Gorymdaith a Gwasnaeath Sul y Cofio yn ein tref eto eleni***



**Diolch o galon, Gyfeillion** - Mae eich cyfraniad yn amhrisiadwy wrth gefnogi ein cerddorion lleol – yn help i brynu offerynnau, gwisgoedd a phethau angenrheidiol eraill ar eu cyfer.

***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.***